VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# I Osod

**Cyn-giosg Manwerthu**
**Pennau’r Clogwyni**
**Penarth**






- Ystyrir defnydd Manwerthu neu Hamdden (yn amodol ar gynllunio)
- Prydles 5 Mlynedd, gydag opsiwn i adnewyddu am 5 mlynedd pellach.
- Gerllaw'r maes parcio
- Yn agos at fan hamdden mawr o laswellt

**Tendr 12pm Dydd Mercher 12 Ionawr 2022**

Am fwy o fanylion cysylltwch â Penny Fuller 01446 709885
pfuller@valeofglamorgan.gov.uk


***Mae'r Cyngor yn chwilio am syniad arloesol a fydd yn gwella ac yn ategu'r lleoliad sydd eisoes yn boblogaidd yn ardal Pennau'r Clogwyni ac ardal yr Esplanade (yn amodol ar ganiatâd cynllunio)***

## 1 Cefndir



Mae Bro Morgannwg yn sir arfordirol yn ne Cymru. Mae amgylchedd ac asedau naturiol o ansawdd uchel sy'n cynnwys arfordir treftadaeth Morgannwg yn ei gwneud yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer twristiaeth a gweithgareddau hamdden. Yn fwy diweddar, bu buddsoddiad sylweddol ar lefel ranbarthol a lleol gan ddenu busnesau o bob maint.

Mae Penarth yn dref a chymuned ym Mro Morgannwg, tua 4 milltir (6.4 km) i'r de/de-orllewin o ganol dinas Caerdydd ym mhen deheuol Bae Caerdydd. Mae Penarth yn gyrchfan glan môr gefnog ym Mro Morgannwg.



Mae ardal yr Esplanade yn gyrchfan boblogaidd i bobl leol ymweld â hi ochr yn ochr â thwristiaid, cerddwyr cŵn neu selogion ymarfer corff sydd i gyd yn cael eu denu at olygfeydd o'r môr a llwybr hir sy'n cydredeg ochr yn ochr â'r môr a'r clogwyni.

Defnyddiwyd yr ardal werdd i'r de o'r adeilad yn flaenorol fel cwrs golff byr ac mae bellach yn lle agored a fwynheir gan lawer. Yn yr eiddo dan sylw y byddai'r offer golff yn cael ei storio a'i ddosbarthu o'r blaen.

I'r De-ddwyrain o'r eiddo mae parc chwarae i blant gydag amrywiaeth o offer sy'n boblogaidd ymysg y cyhoedd.

I'r dwyrain a'r gogledd o'r eiddo mae maes parcio cyhoeddus ac mae'r adeilad yn ffinio â chyfleusterau cyhoeddus.

**Yr Eiddo**

Ŷ darn deheuol o’r adeilad oedd y cyn agoriad gweini y ceir mynediad ato o ddrws cerddwyr unigol ar ochr orllewinol yr adeilad.

Y tu ôl i'r gofod hwn mae ardal a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer storio, ac eir i mewn iddo drwy ddrysau dwbl i gerddwyr.






Mae Rhan Ddwyreiniol yr adeilad yn ardal dan do sy'n wynebu'r de-orllewin ar draws y parc chwarae. Mae’n cynnwys seddau mainc a gellir ei gwneud yn ddiogel drwy ddefnyddio caeadau dros nos.

I'r gogledd o'r adeilad mae ardal laswelltog. Mae'r hawl i gael mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw i'w roi i feddianwyr cyfagos fel y nodir yn y man sydd wedi ei liwio’n frown yn y cynllun isod




## 2 Prydles

Mae cyfle cyffrous wedi codi ym Mhennau'r Clogwyni, Penarth. Mae'r Cyngor yn cynnig prydles yn y lleoliad a nodir mewn amlinell goch ar y cynllun. Ni chaniateir masnachu dan unrhyw amgylchiadau o unrhyw leoliad heblaw am yr un a ddangosir ar y cynllun.

Mae'r Cyngor yn chwilio am fusnes mentrus a fydd yn ymgymryd â'r adeilad unigryw hwn ac yn gwella'r ardal leol a glan y môr, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

## 3 Amseroedd Masnachu

Mewn amgylchiadau arferol, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd masnachu'n digwydd bob dydd drwy gydol cyfnod y brydles gan ddechrau heb fod yn hwyrach na 10:00 ac yn dod i ben am 22.00 ar yr hwyraf. Fodd bynnag, rhoddir hyblygrwydd i'r Lesddeiliad o ran oriau masnachu er mwyn lleihau colledion a achosir gan dywydd gwael pan fo'r ardal yn dawel.



## 4 Telerau Gweithredu

Bydd angen i'r Lesddeiliad weithredu'r brydles ar y sail ganlynol:-

a) Bydd y Lesddeiliad yn sicrhau bod o leiaf un oedolyn cymwys yn bresennol ac yn rheoli drwy'r amser.

b) Ystyrir bod y Lesddeiliad wedi archwilio'r holl gyfleusterau cyn dechrau'r brydles. Mae'r Lesddeiliad yn cytuno i gymryd yr eiddo yn ei gyflwr presennol.

c) Bydd y Lesddeiliad yn gyfrifol am gadw'r eiddo mewn cyflwr glân a thaclus.

d) Bydd y Lesddeiliad yn annog y cyhoedd i ddefnyddio'r cyfleuster a bydd yn sicrhau bod agwedd a safonau'r staff o'r safon uchaf ac yn cael eu cynnal trwy'r amser.

e) Bydd y Lesddeiliad yn sicrhau nad yw defnyddwyr y cyfleusterau yn achosi unrhyw niwsans neu aflonyddwch i unrhyw aelod o'r cyhoedd neu i berchnogion eiddo cyfagos.

f) Ni fydd y Lesddeiliad yn caniatáu i unrhyw sbwriel gael ei adael yn y safle, neu achosi i unrhyw un wneud hynny.

g) Bydd y Lesddeiliad yn sicrhau bod yr eiddo'n cael ei weithredu mewn modd cyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ar bob adeg. Bydd graddfa gostau neu fwydlen yn cael ei harddangos yn glir yn y cyfleusterau bob amser.

h) Y Lesddeiliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei staff a'i asiantau'n cael eu hysbysu ynghylch sut mae dod i'r safle'n ddiogel. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am weithred sy'n arwain at ddifrod i gerbyd.

i) Bydd y Lesddeiliad yn sicrhau bod gan unrhyw fwyd tecawê Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol o 3 neu uwch. Dylid cyflwyno copi o hyn wrth wneud cais am y tendr.

j) Ni ddylai'r Lesddeiliad arddangos unrhyw hysbyseb neu boster ac eithrio'r prisiau a'r sgôr hylendid.

## 5 Defnyddiwr

Mae'r Cyngor yn agored i syniadau arloesol a fydd yn gwella ac yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos. Byddai bwyd a diod, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cysylltiad â defnydd hamdden neu gymunedol yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol:
a) Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco ar y Safle.
b) Caniateir gwerthu alcohol, yn amodol ar fod y Trwyddedai yn cael y drwydded gywir
c) Ni chaniateir defnyddio plastigau untro.

## 6 Cynllunio

Mae gan yr eiddo ganiatâd cynllunio A3.

Y Lesddeiliad fydd yn gyfrifol am gael unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol. Nid yw'r Cyngor yn gwarantu y bydd unrhyw geisiadau o'r fath yn cael eu cymeradwyo at y diben y caiff y tir ei dendro ar ei gyfer. Argymhellir bod y Lesddeiliad arfaethedig yn gwneud ymholiadau cynllunio cyn cyflwyno tendr.

## 7 Ymweld

Mae'r rhan fwyaf o'r safle ar agor, fodd bynnag, i drefnu archwiliad o'r tu mewn i'r safle, cysylltwch â Penny Fuller ar 01446 709885.

## 8 Cyfnod Prydlesu

Bydd y brydles arfaethedig am 5 mlynedd, gydag opsiwn i adnewyddu am 5 mlynedd pellach

## 9 Rhent

Y Rhent fydd y swm fydd ar y ffurflen dendro lwyddiannus (sef y Rhent blynyddol) ac ni fydd yn cynnwys ardrethi, trethi na threuliau eraill a allai gael eu codi ar yr eiddo. Bydd angen talu'r Rhent ymlaen llaw yn flynyddol ac ni roir prydles ac ni chaiff unrhyw weithredwr ganiatâd i ddechrau masnachu nes y caiff y Brydles ei chwblhau a rhent y flwyddyn gyntaf a'r costau eu talu'n llawn.

Y Rhent fydd y swm fydd ar y ffurflen dendro lwyddiannus (wedi ei fynegi fel cyfanswm y swm rhent blynyddol) am y 5 mlynedd cyntaf, ac ni fydd yn cynnwys ardrethi, trethi na threuliau eraill a allai gael eu codi ar yr eiddo. Ar ôl y 5 mlynedd cyntaf bydd y Rhent yn destun adolygiad.

Bydd angen talu'r Rhent ymlaen llaw yn chwarterol ac ni roir prydles ac ni chaiff unrhyw weithredwr ganiatâd i ddechrau masnachu nes y caiff y Brydles ei chwblhau a rhent y chwarter cyntaf a'r costau eu talu'n llawn.

## 10 Tystysgrif Perfformiad Ynni

Mae'r eiddo wedi'i eithrio o dan reoliadau'r TPY.

## 11 Atgyweiriadau

Y Lesddeiliad fydd yn gyfrifol am gadw'r tu mewn i'r eiddo, y caeadau, a'r gwydr yn y ffenestri, mewn cyflwr da ac wedi'i addurno'n dda.

## 12 Ffioedd a chostau

Bydd y Tenant yn gyfrifol am dalu ffioedd syrfewyr Cyngor Bro Morgannwg, sef £153.40 (cant pumdeg tair o bunnoedd a phedwar deg ceiniog) heb gynnwys TAW, a chostau Cyfreithiol y Cyngor ei hun, sef £153.40 (cant pumdeg tair o bunnoedd a phedwar deg ceiniog) am baratoi'r Brydles a'i gwrthran.

## 13 Ardrethi a threuliau eraill

Y Lesddeiliad fydd yn gyfrifol am yr holl ardrethi, trethi a threuliau eraill sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r ymarfer neu sydd o ganlyniad iddo, a'r defnydd o'r Brydles.

## 14 Yswiriant

Bydd y Lesddeiliad yn indemnio Bro Morgannwg yn erbyn unrhyw a phob hawl, cam gweithredu, gorchymyn, cost neu achos trydydd parti, gan gynnwys ar gyfer pob anaf boed yn angheuol neu beidio, pa beth bynnag sy'n codi a sut bynnag y mae'n codi o ganlyniad i roi'r Drwydded arfaethedig.

Bydd y Lesddeiliad yn cyflwyno tystiolaeth ddogfennol megis polisïau yswiriant gyda Chwmni Yswiriant ag enw da yn unol â gofynion y Pennaeth Cyllid (Adran Yswiriant).

**O.N.** Bydd angen dangos dogfennau yswiriant, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cyn i unrhyw brydles gael ei rhoi

## 15 Niwsans / Aflonyddwch

Ni ddylai'r Lesddeiliad achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch wrth arfer telerau'r Brydles ac ni fydd, dan unrhyw amgylchiadau, yn caniatáu i sbwriel gael ei adael ar dir sy'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Lesddeiliad yn darparu (yn union ardal safle'r consesiwn) gynhwysyddion priodol ar gyfer gwaredu sbwriel a bydd yn sicrhau y caiff yr holl sbwriel hwnnw ei symud a'i waredu'n briodol mor aml ag y mae angen ond nid llai nag unwaith yr wythnos.

## 16 Amddiffyniad Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954

Mae cytundeb y Brydles yn cael ei rhoi y tu hwnt i amddiffyniad Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954. Mae hyn yn golygu na fydd hawl awtomatig i adnewyddu'r brydles pan ddaw i ben.

## 17 Aseiniad

Ni chaniateir aseinio nac is-osod y brydles.

## 18 Newidiadau

Ni chaniateir unrhyw newidiadau, diwygiadau, addasiadau nac ychwanegiadau at hawliau neu freintiau a roddir yn y Brydles. Ni chaniateir unrhyw newidiadau i'r eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Lesydd ymlaen llaw.

## 19 Rhwymedigaethau Statudol

Bydd y Tenant yn cydymffurfio â'r holl ofynion, rheoliadau, is-ddeddfau, cynllunio statudol ac o ran trwyddedu, ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill neu'r cydsyniadau sy'n berthnasol neu sy'n ganlyniad i ddyfarnu'r Brydles.

## 20 Cydymffurfio

Bydd y Lesddeiliad yn caniatáu i'r Lesydd gael mynediad i gynnal profion cydymffurfio pan fo angen. Y Lesddeiliad fydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw statud neu reoliadau yn y dyfodol sy'n gyfrifoldeb i'r Lesddeiliad ac am ddarparu gwybodaeth am y canlyniadau i'r Lesydd pan ofynnir amdano.

**21 Diogelwch y Cyhoedd**

Rhaid i’r Lesddeiliad gydymffurfio â'r holl ganllawiau a rheoliadau diogelwch cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 neu unrhyw feirws arall.
Bydd gan y Trwyddedwr yr hawl i gyfarwyddo'r Lesddeiliad i roi'r gorau i fasnachu ar sail diogelwch y cyhoedd a bydd rhaid i’r Lesddeiliad gydymffurfio ar unwaith. Os bydd digwydd hyn yn digwydd, ad-delir y Lesddeiliad ar sail pro-rata am y cyfnod y mae'r Lesydd yn gwahardd masnachu.

Rhaid i’r Lesddeiliad gydymffurfio â'r holl ganllawiau a rheoliadau diogelwch cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 neu unrhyw feirws arall.
Bydd gan y Trwyddedwr yr hawl i gyfarwyddo'r Trwyddedai i roi'r gorau i fasnachu ar sail diogelwch y cyhoedd a bydd rhaid i’r Trwyddedai gydymffurfio ar unwaith. Os digwydd hyn, ad-delir y Lesddeiliad ar sail pro-rata am y cyfnod y mae'r prydlesydd yn gwahardd masnachu.

**22 Annilysu**

Ceidw’r Cyngor yr hawl, fel y barno, i beidio ag ystyried, neu i ystyried yn annilys, unrhyw dendrau gan unrhyw berson, partneriaeth neu gwmni nad yw wedi cyflawni ei ymrwymiadau statudol neu delerau unrhyw drwydded, prydles neu gontract neu gytundeb arall yn y gorffennol gyda’r Cyngor.

**23 Dim gwarant**

Nid yw’r Cyngor yn gwneud nac yn rhoi unrhyw warant yn ymwneud â’r safle neu ei addasrwydd at ddefnydd arfaethedig y Lesddeiliaid.

**24 Telerau Ychwanegol**

Bydd y Brydles yn cynnwys telerau ac amodau y mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg yn eu hystyried yn angenrheidiol, yn ôl ei disgresiwn, er mwyn amddiffyn buddiannau’r Cyngor neu reolaeth y eiddo.

**25 Deunyddiau’r Cynnig, Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion**

Bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno cynnig manwl a fydd yn cynnwys:

A. **Cynnig Rhent;**
B. **Manylion y Cynnig;**
C. **Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol os yw’n berthnasol**
D. **Polisi Plastigau**

Y dyddiad cau cadarn ar gyfer cyflwyno ceisiadau tendr yw **12pm 12 Ionawr 2022**

Rhaid cyflwyno’r cynnig mewn amlen swyddogol gyda’r Label Tendr swyddogol wedi ei gludo ar yr ochr allan â’r teitl, **“Prydles ym Mhennau’r Clogwyni, Tendr Penarth”.** Rhaid selio’r amlen yn dynn a RHAID IDDI BEIDIO Â dangos unrhyw farc a allai ddatgelu pwy yw’r anfonwr/ymgeisydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, **ni dderbynnir cynigion a gyflwynir drwy e-bost.**Mae'n well gennym bod ceisiadau'n cael eu postio; fodd bynnag, gellir dod â hwy â llaw i dderbynfa'r Swyddfeydd Dinesig yn ystod oriau agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod at y:

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holltwn**
**Y Barri CF63 4RU.**

## 25 Dewis y cynigydd a ffefrir a meini prawf sgorio wedi eu pwysoli

Caiff y Cynigydd a Ffefrir ei ddethol ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig. Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol:

a. **Y cynnig rhentu a gynigir (pwysoli 50%)** ar sail y "Cynnig Rhentu" a gyflwynir gan y cynigiwr; a'r

b. **Datganiad o fwriad (pwysoli 50%)** yn seiliedig ar ansawdd y cynnig, pwynt gwerthu unigryw'r busnes arfaethedig, pa mor dda y mae'r busnes yn ategu'r ardal gyfagos a sut mae'n ychwanegu at y cynnig cyffredinol ar Bennau'r Clogwyni.